



**Wales Centre for Public Policy**  
**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

# **Cynllunio ar gyfer Adferiad Ffyniannus, Cyfartal a Gwyrdd ar ôl y pandemig Coronafeirws**

Gorffennaf 2020



# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisi a gwella gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfeirio gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus at dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi i gyfuno a chyflwyno'r dystiolaeth bresennol a chanfod unrhyw fylchau lle mae angen gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar lywodraeth ond yn cydweithio'n agos â llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd am sut i ateb heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau eraill sydd wedi eu datganoli. Mae'n:

- Cynorthwyo Gweinidogion Llywodraeth Cymru i adnabod, casglu a defnyddio dystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i oleuo a gwella polisi;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i ganfod, cynhyrchu, gwerthuso a chymhwysu dystiolaeth am beth sy'n gweithio at heriau economaidd a chymdeithasol allweddol; a
- Defnyddio ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o sut y gall dystiolaeth oleuo a gwella'r broses o lunio polisi a gwella gwasanaethau cyhoeddus, a chyfrannu at theorïau ar lunio a gweithredu polisi.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymhlith ymchwilyr i gyfrannu at ymchwil polisi perthnasol sy'n cael effaith ar lawr gwlad.

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan yn <https://www.wcpp.org.uk/cy/>

## Cyllidwyr Craidd



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae'r brifysgol yn un uchelgeisiol ac arloesol gyda'i golygon ar wneud cysylltiadau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.



Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o sefydliad Ymchwil ac Arloesi'r Deyrnas Unedig (UKRI), sefydliad newydd sy'n dod â'r saith cyngor ymchwil yn y DU, ynghyd ag Innovate UK a Research England, at ei gilydd i gynyddu cyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau fel bod ymchwil ac arloesi'n gallu ffynnu.



**Llywodraeth Cymru** yw'r llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru ac mae'n gyfrifol am feysydd allweddol yn ymwneud â bywyd cyhoeddus gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

# Cynnwys

<b>Crynodeb</b>	Error! Bookmark not defined.
<b>Cyflwyniad</b>	Error! Bookmark not defined.
<b>Arweinyddiaeth wleidyddol</b>	Error! Bookmark not defined.
<b>Lleihau anghydraddoldeb</b>	<b>5</b>
Grwpiau agored i niwed	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Ysgolion	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Addysg bellach ac uwch	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
<b>Mabwysiadu dulliau arloesol a ffyrdd newydd o weithio</b>	Error! Bookmark not defined.
Addasu'n gyflym a dulliau digidol	11
Trawsnewid gofal iechyd a chymdeithasol	12
<b>Cymell y cyhoedd i gymryd rhan a hybu newid mewn ymddygiad</b>	Error! Bookmark not defined.
Newid hirdymor mewn ymddygiad teithio	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Gweithredu cymunedol a gwirfoddoli	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
<b>Cefnogi busnes ac adferiad gwyrdd</b>	Error! Bookmark not defined.
Cymorth hyblyg gan lywodraeth	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Ariannu cymorth	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Defnydd strategol o gaffael a chymorth busnes	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
<b>Cyfeiriadau</b>	Error! Bookmark not defined.

# Crynodeb

Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r prif negeseuon o gyfres o gyfarfodydd bord gron i arbenigwyr a alwyd gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd. Mae'r materion y tynnir sylw atynt yn bwysig ar gyfer cynllunio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adferiad economaidd a chymdeithasol ar ôl y pandemig Coronafeirws ond yn berthnasol hefyd i wasanaethau cyhoeddus a sefydliadau eraill sy'n datblygu strategaethau adfer.

Dylai strategaeth Llywodraeth Cymru gael ei seilio ar syniad clir o'r blaenoriaethau. Mae angen i Weinidogion Cymru benderfynu beth i beidio â'i wneud yn ogystal â pha fentrau newydd i'w dilyn.

Mae'n bwysig bod y broses ar gyfer gweithredu'r strategaeth adfer yn cynnwys:

- Dull cydgysylltiedig ar draws llywodraeth a'r gwasanaeth cyhoeddus cyfan;
- Cydymdrech i ddylanwadu ar bolisi Llywodraeth y DU ac ysgogi buddsoddi; a
- Dull seiliedig ar dystiolaeth sy'n tynnu ar brofiad o gwmpas y byd.

Mae'r pandemig wedi amlygu a gwaethygu anghydraddoldebau presennol – mewn canlyniadau iechyd, amodau tai, cyrhaeddiad addysgol, tegwch rhwng y cenedlaethau, cyfleoedd economaidd a llesiant. Mae'n bwysig bod strategaeth adfer Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu rhyngblethedd yr anghydraddoldebau a'i bod yn targedu'r rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf.

Yr awgrym o fodelu yw y gellid colli effaith yr ymdrechion a gafwyd dros ddegawd i gau'r bwlch cyrhaeddiad. Mae angen rhoi'r system addysg ar waith i wynebu'r risg hon.

Dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar ymdrechion ar draws llywodraeth i lunio set o bolisiau dyfeisgar, seiliedig ar dystiolaeth yn y meysydd canlynol:

- Cymorth ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol ac Addysg Bellach yn ogystal ag addysg uwch;
- Rhaglenni symlach ar gyflogadwyedd a chymorth busnes;
- Cymryd camau effeithiol ar gaffael a siapio'r farchnad yn rhagweithiol gan ganolbwyntio ar set fach o flaenoriaethau i economi Cymru sy'n dangos yn glir beth yw ei gwerthoedd, sy'n hybu adferiad gwyrdd, ac yn canolbwyntio ar greu gwerth yng Nghymru.

Dylid rhoi blaenoriaeth i symleiddio a thargedu'r rhwyd ddiogelwch gymdeithasol yng Nghymru, gan ddechrau â'r pwerau sydd wedi'u datganoli.

Mae'r argyfwng iechyd presennol wedi arwain at drawsnewid cyflym yn y dull o ddarparu rhai gwasanaethau cyhoeddus – er enghraifft, gofal iechyd digidol; cydweithio rhwng sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol a chymunedau; a chydgysylltu rhwng llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol. Mae'n bwysig adeiladu ar y sail hon a pheidio â gadael i rwystrau i ddiwygio ailgodi.

Rhaid i'r sector gofal cymdeithasol fod yn flaenoriaeth. Mae angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi yn y gweithwyr allweddol yr amlygwyd eu cyfraniad yn ystod yr argyfwng Coronafeirws a sicrhau sylfaen fwy cadarn i'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

Mae'r cyhoedd wedi derbyn rôl fwy helaeth i'r wladwriaeth a chafwyd rhai newidiadau mewn ymddygiad a all fod yn arwyddocaol. Dylai Llywodraeth Cymru geisio datblygu a gwreiddio'r rhain er mwyn creu cymunedau tecach a mwy cynaliadwy.

# Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn crynhoi'r prif negeseuon o gyfres o gyfarfodydd bord gron i arbenigwyr a alwyd gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd i helpu i siapio'r ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn ymdrin ag adfer economaidd a chymdeithasol ar ôl y pandemig Coronafeirws.

Mae'n tynnu sylw at faterion a thystiolaeth sy'n bwysig ar gyfer cynllunio adferiad gan Lywodraeth Cymru ond sydd hefyd yn berthnasol i wasanaethau cyhoeddus a sefydliadau eraill sy'n datblygu strategaethau i ailgychwyn ac adfer ar ôl y pandemig.

## Arweinyddiaeth wleidyddol

**Mae'n bwysig bod strategaeth adfer Llywodraeth Cymru yn cael ei seilio ar syniad clir o'r blaenoriaethau.** Bydd hyn yn golygu penderfynu beth fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gorau i'w wneud a beth fydd angen iddi ei wneud yn wahanol, a hefyd pa bolisiâu newydd y bydd yn eu cyflwyno.

Er mwyn gweithredu'r strategaeth adfer, bydd angen **dull ymateb cydgysylltiedig gan y llywodraeth gyfan a chydweithio effeithiol â phartneriaid i sicrhau ei chyflawni'n lleol.**

Mae **terfynau i'r hyn y gall Llywodraeth Cymru ei gyflawni ar ei phen ei hun.** Bydd yn bwysig ceisio dylanwadu ar bolisi Llywodraeth y DU ac ysgogi cyllido a buddsoddi o ffynonellau eraill.

Mae ymateb Cymru i'r argyfwng iechyd a gododd o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws wedi cael ei seilio ar y dystiolaeth wyddonol a chynghor gan arbenigwyr. Dylai Gweinidogion geisio mabwysiadu ymagwedd debyg **seiliedig ar dystiolaeth at adfer economaidd a chymdeithasol.** Bydd hyn yn golygu bod yn glir ynghylch:

- Beth yw effeithiau economaidd a chymdeithasol y pandemig;
- Pwy sy'n wynebu'r risg fwyaf ac ar bwy mae am ganolbwyntio wrth ymateb;
- Sut y gall Llywodraeth Cymru ymyrryd i gefnogi adferiad a fydd yn arwain at Gymru sy'n ffyniannus, yn fwy cyfartal ac yn fwy gwyrdd.

Dylai Llywodraeth Cymru dynnu ar dystiolaeth o ymyriadau blaenorol wrth ffurfio'r strategaeth adfer yn ogystal â chanfod a gwerthuso gwersi newydd a ddysgwyd yng Nghymru a thu hwnt.

# Lleihau anghydraddoldeb

## Grwpiau agored i niwed

**Mae'n bwysig bod y strategaeth adfer yn canolbwyntio ar helpu'r rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf o effeithiau economaidd niweidiol y pandemig, yn enwedig pobl ifanc.** Bydd maint y problemau'n dibynnu ar ba mor gyflym y gellir aildddechrau gweithgarwch economaidd. Mae'n debygol y bydd y pandemig Coronafeirws yn creu carfan sylweddol o bobl a fydd yn wynebu bygythiad newydd i'w lles economaidd. Mae hefyd yn glir y bydd y pandemig yn gwaethygu anghydraddoldebau sydd eisoes yn bod. Y grwpiau sydd eisoes o dan yr anfantais fwyaf fydd yn wynebu'r risg fwyaf o ddiweithdra, colli incwm ac iechyd gwael. Mae'n debygol bod y cyfyngiadau symud wedi cynyddu afiechyd meddwl, yn enwedig ymysg pobl sydd eisoes yn agored i niwed, ac wedi creu mwy o densiwn mewn rhai perthnasoedd a theuluoedd, gan arwain at risg fwy o gam-drin a thrais domestig (Holmes et al., 2020; y Pwyllgor Materion Cartref, 2020). Bydd yn bwysig bod strategaeth adfer Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r heriau hyn a'r cydblethu rhwng anghydraddoldeb ac anfantais a'i bod yn canolbwyntio cymorth ar y grwpiau hynny sy'n debygol o wynebu'r risg fwyaf. Dylai buddsoddi yng nghyfalaf dynol Cymru fod yn flaenoriaeth allweddol.

Mae'n debygol y bydd **menywod** yn profi effaith fwy difrifol na dynion yn sgil canlyniadau economaidd y pandemig. Mae lefelau eu cyfoeth yn is (OECD, 2020) ac mae'n bosibl y bydd y bwch incwm rhwng y rhywiau'n cynyddu am fod menywod yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn swyddi isel eu tâl ac mewn diwydiannau sydd ar ffyrlo. Mae menywod sydd â phlant yn debygol o brofi effaith o gau ysgolion a lleihau'r ddarpariaeth o ofal plant, a gallai hyn leihau eu cyfranogiad yn y gweithlu. Mae hyn yn creu goblygiadau negyddol i'r bwch cyflogaeth rhwng y rhywiau a gallai ddad-wneud y cynnydd a gafwyd yn ddiweddar. Gellid lleihau'r niwed drwy fesurau i gymell menywod ifanc i fynd i sectorau lle mae llai ohonynt ar gyfartaledd, drwy weithredu argymhellion o Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion hyn, a thrwy edrych o safbwynt rhywedd ar ymyriadau Coronafeirws yn y dyfodol.

**Mae'r rheini sy'n byw mewn tlodi ac mewn tai ansicr** yn wynebu heriau neilltuol. Mae'r pandemig wedi amlygu anghydraddoldebau o ran tai, ac mae cysylltiad rhwng amodau tai gwael ac iechyd gwael. Bydd rhai tenantiaid a deiliaid morgais yn ei chael yn anodd cwrdd â'u costau tai ar ôl diwedd y 'gwyliau' talu presennol ar forgeisi a chynlluniau Cymorth i Brynu a'r ataliad ar droi tenantiaid allan. Gallai hyn greu cynnydd sydyn yn y nifer sy'n colli eu cartrefi, yn enwedig yn y sector rhent preifat (Simcock, 2020). Byddai diweithdra a cholli enillion hefyd yn gallu arwain at gynnydd mewn digartrefedd, tra bydd gwasanaethau tai yn wynebu risg ariannol fwy o ganlyniad i golli referniw a chostau ychwanegol (Cymorth Cymru, 2020). Mae rhai agweddau ar ddigartrefedd ymysg pobl ifanc, yn enwedig digartrefedd ar y stryd, wedi cael eu celu drwy ddarparu llety argyfwng yn ystod y cyfyngiadau symud ond

maent yn debygol o gynyddu eto oherwydd y dirywiad economaidd (Price a Russell, 2020). Er hynny, mae rhai pobl ddigartref wedi ymgysylltu â gwasanaethau cymorth am y tro cyntaf yn ystod y cyfyngiadau symud ac mae cyfle i fanteisio ar hyn er mwyn darparu cymorth parhaus iddynt (Teixeira, 2020). Mae'n ymddangos bod polisi tai yn sbardun hanfodol yn ymateb Llywodraeth Cymru, ac mae cyfle i gymryd camau uchelgeisiol i ddelio â nifer o heriau sydd wedi dwysáu oherwydd y pandemig Coronafeirws.

Bydd angen cymorth ychwanegol ar **y rheini sy'n derbyn budd-daliadau**. Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol eisoes ar hawliadau nawdd cymdeithasol. Roedd mwy o bwerau dros nawdd cymdeithasol i Gymru, a ffyrdd i Gymru wneud y defnydd gorau o'i phwerau presennol, eisoes yn cael eu trafod cyn y pandemig (Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 2019; Taylor-Collins a Bristow, 2020).

Mae'n ymddangos mai **grwpiau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig** sy'n wynebu'r risg fwyaf o salwch difrifol a marwolaeth o ganlyniad i COVID-19. Maent hefyd yn fwy tebygol o fod ymysg y tlotaf mewn cymdeithas, ac o brofi tlodi plant, cyflogaeth ansicr ac isel ei thâl, tai gwael a gorlawn, a gwahaniaethu hiliol (Runnymede Trust, 2020). Mae ymchwil wedi tynnu sylw at anghydraddoldebau ethnig sylweddol mewn cyfranogiad yn y farchnad lafur (Catney a Sabater, 2015). Y darlun a geir yw un lle mae'r holl grwpiau o leiafrifoedd ethnig yn parhau i wynebu anfantais o'u cymharu â grŵp y mwyafrif gwyn Prydeinig, gan ei bod yn bosibl y bydd y crebachu mewn sectorau fel lletygarwch yn cael effaith anghymesur arnynt. Gellid lliniaru rhai o'r risgiau hyn drwy ystyried sut i roi mwy o werth ar waith (sy'n isel ei dâl ar hyn o bryd) sy'n fwy tebygol o gael ei wneud gan gyflogaeth sy'n bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a sut i roi gwell cydnabyddiaeth ariannol amdano, a thrwy wella amodau tai.

Mae **pobl ag anableddau** a'u teuluoedd yn fwy tebygol o wynebu heriau economaidd a thlodi. Mae ymchwil gan Cyngor ar Bopeth Cymru (2017) yn awgrymu bod nifer mawr o bobl anabl yn wynebu problemau penodol o ran cyflogau isel, hygyrchedd, trefniadau ac amodau gweithio, cwestiynau am iechyd cyn eu cyflogi, ac absenoldeb oherwydd salwch. Yn rhan o'r newid hirdymor i drefniadau gweithio newydd, er enghraifft gweithio o bell, mae angen ystyried yr effeithiau cadarnhaol a negyddol dichonol ar bobl ag anableddau.

Mae'n bosibl y bydd **y rheini sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd sy'n dibynnu ar dwristiaeth, manwerthu, lletygarwch, a'r diwydiannau awyrofod a modurol** yn neilltuol o agored i'r risg o golli enillion. Mae'r amcangyfrifon am gyfraddau cau busnesau mewn ardaloedd gwledig ac yng Nghymoedd De Cymru yn uchel (Sefydliad Bevan, 2020) ac mae'n glir bod rhai rhannau o Gymru yn llai economaidd gydnherth ac yn fwy agored nag eraill i gydeffiaith yr ergydion economaidd o'r pandemig a Brexit. Mae'n bwysig bod y strategaeth adfer yn adlewyrchu'r gwahaniaethau rhanbarthol hyn a phwysigrwydd yr economi sylfaenol mewn nifer o rannau o Gymru.



Mae **pobl hŷn** yn gyfran fawr o'r rheini sydd wedi'u 'gwarchod' yn ystod y pandemig. Ond mae nifer mawr yn eu 60au a'u 70au yn parhau i weithio, mae nifer mawr o weithwyr allweddol yn hŷn na 50 oed, ac mae ymchwil ddiweddar wedi dangos bod hanner y bobl hunangyflogedig yn hŷn na 50 oed (Rest Less, 2019). Mae'n bosibl y bydd gweithwyr hŷn a gyflogir mewn sectorau sy'n agored i effeithiau'r pandemig yn ei chael yn anodd iawn dod o hyd i swyddi eraill. Byddai cymorth ar gyfer gweithio hyblyg a chymorth yn y gweithle i'r rheini sydd ag anhwylderau yn gallu helpu pobl hŷn i ddychwelyd i weithio'n ddiogel a lliniaru'r effeithiau economaidd negyddol posibl ar y grŵp hwn o ganlyniad i'r pandemig.

Mae **pobl ifanc** yn wynebu risg neilltuol o effeithiau cymdeithasol ac economaidd hirdymor y cyfyngiadau symud. Byddai dirwasgiad hir yn cynyddu problemau anghydraddoldeb, o fewn a rhwng y cenedlaethau, ac rydym yn gwybod bod diweithdra sy'n digwydd yn gynnar yn ystod oes gweithio yn gallu cael effeithiau niweidiol hirdymor. Mae cyflogeion sy'n iau na 25 oed yn fwy tebygol na rhai hŷn o fod yn gweithio mewn sectorau sydd wedi cau eu drysau (IFS, 2020) a chafwyd rhybuddion bod llai o raddedigion yn cael eu cyflogi (Institute for Student Employment, 2020). Rhai 16-24 blwydd oed yw 42% o'r gweithlu sydd ar gontractau dim oriau yng Nghymru ac felly maent yn wynebu risg neilltuol. Bydd rhwydi diogelwch ariannol byrdymor a pholisi egnïol hirdymor ar gyfer cyflogaeth a'r farchnad lafur yn bwysig i'r grŵp hwn. Wrth ailhyfforddi ac adleoli pobl ifanc sy'n colli eu swyddi o ganlyniad i'r pandemig, dylid canolbwyntio ar eu paratoi ar gyfer proffesiynau sy'n ddiogel at y dyfodol a sectorau sy'n gallu cefnogi adferiad gwyrdd, fel adeiladu carbon isel, ynni adnewyddadwy, a sgiliau a thechnoleg ddigidol.

## Ysgolion

Mae nifer o wahanol bolisïau mewn perthynas ag ysgolion a fyddai'n gallu chwarae rhan bwysig mewn hybu adferiad hirdymor ar ôl y pandemig.

Mae'n bosibl bod **cau ysgolion a cholegau i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr wedi dad-wneud y cynnydd a gafwyd yn y degawd diwethaf ar wella cyrhaeddiad addysgol** (EEF, 2020a) a byddai hyn yn gallu amharu ar ragolygon economaidd cenedlaethau'r dyfodol. Codwyd pryderon am ansawdd addysg o bell (EEF, 2020b) a'r mynediad ati. Bydd gallu plant i ymgysylltu wedi amrywio yn ôl eu hamodau byw, adnoddau'r teulu, mynediad at y rhyngwrwd, a lefelau'r cymorth gan oedolion ar gyfer dysgu yn y cartref. Bydd hyn yn cynyddu'r bylchau cyrhaeddiad presennol rhwng disgyblion o'r cefndiroedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru, yn enwedig yn 16 oed (JRF, 2020), ac yn creu'r perygl o waethygu'r trosglwyddo ar anfantais addysgol hirdymor. Bydd ymyrraeth ddwys yn y blynyddoedd cynnar i ddelio ag anfantais yn rhan bwysig o'r ymateb. Mae pobl ifanc o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn ofni y byddai rhagfarnau diarwybod wrth ragfynegi graddau yn gallu amharu ar eu rhagolygon (Uthmani, 2020).



**Mae ysgolion yn ffynonellau dibynadwy ar gyfer cymorth, arweiniad a diogelu i blant a theuluoedd agored i niwed.** Mae'n bosibl y bydd plant sydd eisoes mewn cysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod o ganlyniad i newidiadau yn y cymorth diogelu a ddarperir fel arfer gan ysgolion, ac oherwydd anhawster wrth ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol effeithiol yn ystod y cyfyngiadau symud a mwy o debygolrwydd i wrthdaro o fewn y teulu. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn arwain at ganlyniadau hirdymor yng nghyrhaeddiad addysgol plant ac at fwy o alw am wasanaethau gofal.

**Mae'n bosibl y bydd angen buddsoddi mwy mewn cymorth iechyd meddwl ac ymyriadau cynnar ar gyfer pobl ifanc** er mwyn ymdopi â gorbryder ac ansicrwydd o ganlyniad i ddefnyddio rhagfynegiadau o raddau a cholli mynediad at gyngor ar yrfaeodd a chymorth gan athrawon. Bydd angen cymorth ar rai plant a phobl ifanc hefyd i drechu gorbryder ynghylch dychwelyd i'r ysgol, er enghraifft y rheini sy'n wynebu risg o fwlio. Byddai strategaethau i gynorthwyo pobl ifanc agored i niwed yn gallu cynnwys cyllid ychwanegol i grwpiau cymunedol lleol sydd wedi ffurfio perthynas â nhw yn barod.

**Mae'r pandemig yn cynnig cyfleoedd i dreialu dulliau newydd** gan fanteisio ar waith Panel Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Ail-greu Addysg. Rhai newidiadau posibl yw addasu amserlenni ysgol a newid dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol i'w gwneud yn fwy hwylus i rieni sy'n gweithio. Mae cwestiynau'n codi hefyd ynghylch a yw'r system arholiadau draddodiadol yn cynnig y ffordd fwyaf addas i asesu myfyrwyr ac roedd ymgynghoriad wedi dechrau ar newidiadau mewn arholiadau yn 16 oed mewn ymateb i'r cwricwlwm newydd. Ac mae opsiwn hefyd i ymestyn y diwrnod ysgol, gan gydweithio â sectorau eraill i ddarparu gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol a chwaraeon i bobl ifanc.

## Addysg bellach ac uwch

**Mae addysg bellach a dulliau dysgu yn y gymuned yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc sy'n rhai galwedigaethol ac yn lleol i'w cartrefi.** Yn gyffredinol, mae angen hyfforddiant ymarferol ac asesu wyneb yn wyneb ar gyfer addysg alwedigaethol, felly mae'n anodd ei darparu o bell. Ond wrth lacio'r cyfyngiadau symud, byddai buddsoddi mewn addysg bellach yn gallu helpu i adfywio'r economi. Mae'n bosibl y bydd angen darparu gwell cymorth ariannol i ddysgwyr a byddai ymestyn yr oedran ysgol gorfodol i 19 yn fodd i oedolion ifanc ddysgu'r sgiliau y bydd arnynt eu hangen i sicrhau gwaith da yn y dyfodol.

**Mae'n bosibl y bydd angen polisïau sy'n helpu'r di-waith i ddychwelyd i weithio, fel cynlluniau i warantu swyddi a hyfforddiant i'r gweithwyr isaf eu sgiliau.** Byddai cymell cyflogwyr i ddileu rhwystrau i ddilyniant mewn swydd mewn gwaith isel ei dâl, sy'n cael ei gyflawni gan bobl ifanc i raddau helaeth, yn gallu ategu polisïau i hyrwyddo cyflog byw cenedlaethol. Gallai CCAUC helpu i hwyluso partneriaethau rhanbarthol rhwng prifysgolion, awdurdodau lleol a busnesau i ddarparu rhaglenni hyfforddi sy'n canolbwyntio ar sgiliau.

Mae'n bosibl y bydd angen cryfhau neu addasu mentrau presennol fel y rhaglen ReAct neu'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg oherwydd twf yn y galw. Byddai polisi gweithredol ar y farchnad lafur sy'n cynnwys cynllun cymhorthdal cyflogau ac ailhyfforddi yn gallu hwyluso ffyrdd hyblyg i ymadael â'r cynllun cadw swyddi. Byddai hyn yn galw am ailfeddwl am gydbwysedd y cyfrifoldebau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ond gallai elwa o'r hyblygrwydd sydd gan Gymru i ddefnyddio opsiynau gwahanol fel benthyciadau i fusnesau bach a chanolig eu maint a chytundebau cyfnewid ecwiti am ddyled.

Mae **prentisiaethau** yn ffordd bwysig i alluogi gweithwyr i symud i sectorau fel iechyd a gofal cymdeithasol a thechnoleg. Mae'n bosibl y bydd modd ehangu ac addasu rhaglenni presennol yn hytrach na chyflwyno rhai newydd. Byddai Llywodraeth Cymru yn gallu gwneud rhaglenni sgiliau a phrentisiaethau Busnes Cymru yn fwy hygyrch drwy symleiddio'r strwythur, y gofynion am gymryd rhan a'r broses ymgeisio.

**Mae prifysgolion yn chwarae rhan allweddol mewn sicrhau gweithlu addysgedig a hyfedr ac mewn hybu gweithgarwch economaidd.** Maent yn cynhyrchu tua £5bn y flwyddyn ac yn cynnal bron 50,000 o swyddi yng Nghymru (Prifysgolion Cymru, 2020), a gallant fod yn gatalyddion pwysig i ddatblygu rhanbarthol (Goddard et al., 2018). Disgwylir y bydd prifysgolion Cymru yn colli incwm o tua £100-£140 miliwn o ffioedd myfyrwyr yn 2020-21 (Dadansoddi Cyllid Cymru, 2020). Mae'n bosibl y bydd angen cymorth gan Lywodraeth Cymru i rai sefydliadau i'w hatal rhag methu'n ariannol neu leihau eu gweithgareddau addysgu ac ymchwil yn sylweddol (Universities UK, 2020).

Os bydd lleoedd gwag gan brifysgolion oherwydd gostyngiad yn nifer y myfyrwyr y maent yn eu derbyn, gellid eu hannog i fuddsoddi mewn dulliau dysgu o bell a fyddai'n creu cyfleoedd newydd i bobl sy'n ei chael yn anodd dod i'r campws, yn enwedig y rheini sydd ag anableddau neu gyfrifoldebau gofalu. Rhai cymhellion posibl i greu gwell cysylltiad rhwng addysg a'r farchnad lafur yw gostwng y dreth gyngor sydd i'w thalu gan raddedigion er mwyn eu cadw yn yr ardal ac annog graddedigion o Gymru i ddychwelyd ar ôl derbyn eu haddysg y tu allan i Gymru. Mae'n ddigon posibl y bydd angen rhywfaint o ad-drefnu yn y sector addysg uwch yng Nghymru i ymateb i'r pwysau newydd ar y gallu i recriwtio myfyrwyr ac ar ffynonellau cyllid eraill, o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws a Brexit.

## Mabwysiadu dulliau arloesol a ffyrdd newydd o weithio

Mae'r pandemig wedi creu heriau byrdymor anodd i wasanaethau cyhoeddus ac mae'n codi cwestiynau yn y tymor hwy am eu cyllid, staffio a threfniadaeth. Er hynny, mae hefyd yn

cynnig cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ailasesu dulliau presennol ac i drawsnewid gwasanaethau, yn enwedig gofal cymdeithasol, fel y byddant yn barod at y dyfodol.

Mae awdurdodau lleol wedi gweithredu fel canolfannau, gan grynhoi adnoddau cymunedol yn ystod y pandemig, ac mae nifer o enghreifftiau o berthnasoedd newydd sydd wedi datblygu rhwng asiantaethau (Talbot, 2020). Gwelsom enghreifftiau o gydweithio newydd seiliedig ar leoedd a oedd yn cynnwys darparwyr gofal iechyd a chymdeithasol a sefydliadau cymunedol. Yn yr un modd, mae'r trydydd sector, gofalmwr anffurfiol a grwpiau cymunedol lleol i gyd wedi chwarae rhan bwysig mewn gofalu am bobl agored i niwed yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae'n bosibl y bydd modd i Lywodraeth Cymru gefnogi a chynnal y rolau a pherthnasoedd newydd hyn a chyflymu gweithio mewn partneriaeth yn y gymuned sy'n dod â'r GIG, gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymunedol eraill at ei gilydd i ddarparu gofal yn y cartref (Confederasiwn GIG Cymru, 2020).

## Addasu'n gyflym a dulliau digidol

**Gall Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus ddysgu gwersi o'r ffyrdd newydd o weithio a fabwysiadwyd ar y pryd mewn ymateb i'r argyfwng Coronafeirws.** Mae'r pandemig wedi cyflymu newidiadau sydd wedi'u trafod ers amser hir ond a oedd yn anodd eu cyflwyno mewn llawer achos. Mae'r fframwaith llywodraethu cymhleth yng Nghymru (850 o gynghorau cymuned, 22 o awdurdodau lleol, saith bwrdd iechyd lleol a phedwar bwrdd partneriaethau rhanbarthol) yn creu heriau. Ond gwelsom gydweithio effeithiol ymysg gwasanaethau a rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol mewn ymateb i'r pandemig. Er enghraifft, mae Gweinidogion wedi cwrdd ag arweinwyr yr holl gynghorau o leiaf ddwywaith yr wythnos i rannu problemau'n gyflym a phennu atebion a chamau gweithredu. Er mwyn dysgu gwersi o hyn, rhaid datblygu ffyrdd o weithio sy'n grymuso'r rheini sy'n creu newid yn lleol. Mae hyn yn galw am arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru a chydymdrech i leihau biwrocratiaeth a chymell dull mwy cydgysylltiedig o lunio polisi, gyda chymhellion pendant ac addasiadau mewn strwythurau i hwyluso hyn.

**Mae rhai gwasanaethau cyhoeddus wedi symud ar-lein yn gyflym mewn ymateb i'r pandemig ac mae angen ystyried y goblygiadau cadarnhaol a negyddol i hyn.** Mae'r trefniadau i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol ar-lein wedi cynyddu'r defnydd ohonynt gan ddioddefwyr trais domestig sy'n byw mewn llochesi. Mae cyfleoedd i arbrofi ymhellach â gwasanaethau iechyd ac addysg digidol a dulliau seiberddiogelwch arloesol sy'n cynnig arloesedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a chyfleoedd economaidd. Mae'r trawsnewid digidol mewn gwasanaethau cyhoeddus yn cynnig cyfle pwysig hefyd i ryddhau rhagor o adnoddau dynol mewn sefydliadau er mwyn darparu gwasanaethau eraill sy'n well os oes cyswllt personol. Er hynny, mae'r newid i ddarpariaeth ar-lein wedi allgáu rhai pobl. Mae'n

bwysig parhau i ddarparu cymorth hygyrch i'r lleiafrif mawr yng Nghymru sy'n wynebu'r risg o allgáu digidol a sicrhau na fydd y gwasanaethau hyn yn troi'n arlwy gweddillol eilradd.

**Mae'r seilwaith digidol ac allgáu digidol yn her** yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac mae diffyg mynediad at fand eang cyflym iawn, er bod y sefyllfa'n gwella. Bydd yn hollbwysig buddsoddi mewn 'seilwaith sylfaenol cyffredinol' er mwyn sicrhau bod pob cymuned yn cael mynediad at systemau gwefru effeithlon a band eang o ansawdd da. Ond mae cynhwysiant digidol yn cwmpasu mwy na seilwaith; mae angen meithrin sgiliau digidol a gwella mynediad at ddyfeisiau fforddiadwy a darpariaeth o'r rhyngwrwd. Mae'r defnydd o wasanaethau cwmwl a sgiliau TG datblygedig yn isel iawn o hyd. Mae angen gwneud rhagor i helpu busnesau i droi o fod yn ddefnyddwyr ar-lein goddefol at gynnwys technoleg ddigidol yn eu gwaith (Henderson et al., 2020). Byddai hyfforddiant un-i-un a help ariannol i'r rheini ar incwm isel yn gallu bod o gymorth, fel y byddai cynllun tebyg ei fformat i'r cynllun beicio i'r gwaith lle mae cyfarpar TG yn cael ei fenthycu fel budd di-dreth. Er mwyn osgoi dyblygu, dylai cynghorau gydweithio ar drawsnewid gwasanaethau i'w galluogi i weithredu'n ddigidol. Bydd yn bwysig bod Cymru'n mabwysiadu strategaeth cynhwysiant digidol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy a pherchenogaeth ac arweinyddiaeth wleidyddol glir.

## Trawsnewid gofal iechyd a chymdeithasol

**Cafwyd newidiadau cadarnhaol mewn gofal iechyd a chymdeithasol y bydd angen cymorth ar eu cyfer gan lywodraeth er mwyn parhau yn ystod yr adferiad.** Mae'r gwasanaeth iechyd wedi creu gwelyau gofal critigol ar fyr rybudd ac mae'r rhan fwyaf o ymgynghoriadau meddygon teulu a nifer o glinigau ysbyty wedi symud ar-lein. Mae'r ddadl wedi'i chyflwyno ers talwm fod technoleg yn cynnig potensial i drawsnewid gwasanaethau a phrofiad y defnyddiwr, yn ogystal â hwyluso gweithio gwell ar draws rhwystrau sefydliadol. Gwelwyd datblygu mewn cydweithio seiliedig ar leoedd sy'n cynnwys darparwyr gwasanaethau iechyd, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gofal cymdeithasol, a threfniadau cymunedol i gynnal iechyd a lles: mae hyn yn newid o bwys o ran darparu gwasanaethau. Mae'n bosibl y bydd ffyrdd i Lywodraeth Cymru gefnogi a chynnal y rolau a pherthnasoedd newydd hyn a chyflymu'r camau i ddarparu gofal seiliedig ar leoedd (Confederasiwn GIG Cymru, 2020).

**Bydd heriau a oedd yn bod cyn y pandemig Coronafeirws yn bwysig o hyd yn y cyfnod adfer.** Cyn y pandemig, roedd cydnabyddiaeth gyffredinol bod y dull o ariannu gofal cymdeithasol yn anghynaliadwy ac roedd gwaith wedi dechrau i edrych ar ddiwygiadau posibl. Mae'r pandemig wedi amlygu'r pwysigrwydd o wella tâl ac amodau staff gofal ond bydd hyn yn ychwanegu at y pwysau gan gostau. Wrth ddiwygio, bydd yn hollbwysig deall yr heriau i gydnerthedd sy'n deillio o'r patrwm o berchenogaeth breifat ar raddfa fach yn y sector gofal preswyl. Yng nghyd-destun y pwysau eithafol ar gyllid cyhoeddus, mae'r her o ddod o hyd i ateb cynaliadwy i ariannu gofal cymdeithasol yn fwy byth ac, felly, mae'n bosibl y bydd pwysau ar gymhwysedd i dderbyn gofal a ariennir gan awdurdod lleol. Mae'n bosibl na fydd yr ardoll gofal cymdeithasol a gynigiwyd (Holtham, 2018) yn ddichonadwy os bydd derbyniadau treth yn lleihau (Bottery et al., 2018) mewn dirwasgiad hir. Byddai'r lefelau uchel presennol o ddiddordeb gan y cyhoedd yn y GIG a'r sector gofal cymdeithasol, ac yn eu cefnogaeth iddynt, yn gallu cynnig cyfle i hybu ymwybyddiaeth o'r dewisiadau anodd y bydd angen eu gwneud er mwyn rheoli pwysau'r galw yn y dyfodol, ac ysgogi'r mathau o sgysiau â chleifion a'r cyhoedd ehangach a ragwelwyd yn 'Cymru Iachach'.

**Mae rôl i'w chyflawni gan Lywodraeth Cymru drwy gefnogi strategaethau i ailfeddl am gartrefi gofal fel rhan o'r gymuned, i gyflwyno mwy o gomisiynu blaengar ar gyfer modelau newydd o ofal cartref, ac i gyflymu'r broses o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol.** Bydd cynnydd yng nghyfraddau salwch staff, yn oriau gwaith rheolwyr, yn y defnydd o staff asiantaeth, ac yn y costau am ddilyn mesurau rheoli haint, yn dwysáu'r pwysau ar gyllidebau darparwyr sy'n gweithredu mewn system sydd eisoes yn simsan. Gellir cael angen sydd heb ei ddiwallu os bydd awdurdodau lleol yn defnyddio newidiadau yn eu dyletswyddau statudol i gwrdd ag anghenion am ofal a chymorth sydd yn Neddff Coronafeirws 2020. Bydd hefyd yn anodd delio â chyfraddau defnydd cyfnewidiol mewn cartrefi gofal yn dilyn y pandemig. Mae nifer mawr o gartrefi gofal yng Nghymru yn adeiladau hŷn lle mae'r perchenogion ar fin ymddeol. Yn ogystal â hyn, mae angen diogelu

gwasanaethau gofal cymdeithasol hanfodol yn y trydydd sector ac ystyried sut i helpu i ddatblygu mentrau cymdeithasol mewn meysydd fel gofal cartref. Mae rhai amcangyfrifon yn awgrymu y byddai cymaint â 40% o elusennau bach yn gallu diflannu drwy golli cyllid os bydd dirywiad economaidd sylweddol.

**Wrth gymryd unrhyw gamau i ddigideiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, bydd angen cydnabod y terfynau i hynny ac anghenion y rheini nad ydynt yn gallu cyrraedd gwasanaethau ar-lein.** Mae ofnau wedi codi am y posibilrwydd bod y camau cyflym i ddigideiddio tystysgrifau marwolaeth wedi amharu ar ddealltwriaeth gywir o achosion marwolaethau. Mae cyswllt wyneb yn wyneb yn bwysig o hyd, yn enwedig i bobl hŷn fregus, gwasanaethau iechyd meddwl a therapi lleferydd, ac mae angen cymryd o ddifrif y posibilrwydd o effeithiau negyddol ar ofal clinigol a phrofiad y claf.

**Mae recriwtio staff i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, a'u cadw, yn hollbwysig.** Roedd hyn yn flaenoriaeth cyn y pandemig. Mae 6.4% o staff gofal cymdeithasol (tua 2,900 o weithwyr) yng Nghymru yn wladolion yr UE o'r tu allan i'r DU, felly byddai Brexit yn gallu dwysáu prinder staff (Llywodraeth Cymru, 2019). Cafwyd ymateb cadarnhaol i ymgyrchoedd diweddar i recriwtio staff dros dro, ac mae hyn wedi helpu i reoli risg a chynyddu capasiti yn y tymor byr. Mae angen parhau â'r gwaith hwn er mwyn sicrhau gweithlu ar gyfer y tymor hir. **Mae cyfle i ailbrisiu gwaith gweithwyr allweddol a gwella eu statws galwedigaethol**, er enghraifft drwy sicrhau eu bod yn cael y cyflog byw gwirioneddol. Byddai codi tâl gweithwyr gofal at lefel y cyflog byw yn gallu lleihau absenoliaeth a chynyddu'r nifer sy'n cael eu recriwtio a'u cadw (Resolution Foundation, 2020). Mae'r pandemig hefyd wedi amlygu'r angen i **fuddsoddi yn lles staff iechyd a gofal** a sicrhau bod ganddynt sgiliau a gwydnwch i ddelio ag argyfyngau (Rimmer a Chatfield, 2020).

**Bydd hefyd yn bwysig rhoi gwell cymorth i ofalwyr di-dâl.** Mae 370,230 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru, y ffigur uchaf yn y DU, sy'n cyfrannu gofal sy'n werth £8.1 biliwn y flwyddyn (Confederasiwn GIG Cymru, 2018). Mae'r pandemig Coronafeirws wedi arwain at gau neu leihau gwasanaethau cymorth i ofalwyr, gan godi pryderon ynghylch eu lles. Mae Carers UK (2020) wedi galw am gynnydd yn y Lwfans Gofalwr er mwyn cydnabod y pwysau ychwanegol y mae gofalwyr yn eu hwynebu o ganlyniad i'r pandemig.

## Cymell y cyhoedd i gymryd rhan a hybu newid mewn ymddygiad

**Bydd angen i Weinidogion sicrhau cefnogaeth gan y cyhoedd i unrhyw strategaeth adfer.** Mae'r cyhoedd wedi dangos lefel uchel iawn o gydymffurfiaeth â chyfyngiadau ar eu gweithgareddau yn ystod y cyfyngiadau symud. Bydd nifer mawr o bobl am fynd yn ôl at 'y



drefn arferol' ond mae cyfle i elwa o'r sylweddoliad newydd bod argyfyngau byd-eang yn gallu effeithio ar eu bywydau mewn ffyrdd trawiadol. Mae cyfle i hyrwyddo camau gweithredu ymarferol, fel ailgylchu, teithio llesol, a gwresogi gwyrdd, a dangos i bobl sut mae eu gweithredoedd yn gwneud gwahaniaeth. Bydd hefyd yn bwysig sicrhau ei bod yn haws gwneud y dewisiadau hyn, er enghraifft drwy ailddylunio canolau tref a strydoedd i hybu cerdded a beicio.

Gellid defnyddio dulliau cydweithredol fel cynullïadau dinasyddion i helpu i ddyfeisio a gweithredu polisiâu adfer. Bydd yn hollbwysig defnyddio'r labeli a'r naratif cywir wrth argymhell newidiadau mewn ymddygiad. Er enghraifft, bydd sôn am yr angen i 'uwchraddio' cartrefi yn cael gwell derbyniad na sôn am 'ôl-osod'.

## Newid hirdymor mewn ymddygiad teithio

**Byddai sefydlu newidiadau cadarnhaol yn ymddygiad teithio unigolion a chymdeithas yn gallu lleihau allyriadau carbon a llygredd aer.** Er mwyn argyhoeddi'r cyhoedd o werth newid o'r fath, bydd angen cynnig atebion neu ddewisiadau yn lle'r ymddygiad presennol, ac mae'n bwysig sicrhau na fydd yr hyn a ofynnir gan y cyhoedd yn ymddangos yn amherthnasol i'r broblem y mae i fod i'w datrys.

**Mae angen i Weinidogion ystyried sut i gymell pobl i aildechrau defnyddio trafndiaeth gyhoeddus.** Mae arolygon barn yn awgrymu bod nifer mawr o bobl yn pryderu ynghylch cadw pellter cymdeithasol a'r risg o drosglwyddo'r Coronafeirws ar drafnidiaeth gyhoeddus. Gallai hyn arwain at fwy o ddefnydd o geir nag a welsom cyn y pandemig a bygwth hyfywedd gwasanaethau bysiau a threnau, gan roi'r rheini sy'n dibynnu fwyaf ar drafnidiaeth gyhoeddus o dan anfantais ac effeithio'n negyddol ar ansawdd aer ac allyriadau carbon. Yn y tymor byr, bydd yn bwysig ceisio tawelu meddwl y cyhoedd ynghylch diogelwch y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Yn y tymor hwy, dylid ystyried sut i ddelio â'r rhwystrau strwythurol a'r costau gwahanredol o newid. Yn aml mae gwasanaethau yng Nghymru wledig yn gyfyngedig iawn a heb gael eu hamserlennu ar amseroedd neu i leoedd sy'n galluogi pobl i deithio i'r gwaith. Gall fforddiadwyedd fod yn rhwystr hefyd i rai defnyddwyr, yn enwedig y rheini nad ydynt yn dod o dan y system tocynnau teithio rhatach, fel oedolion o oed gweithio ar incwm isel (Sefydliad Bevan, 2018). Byddai cymhellion newydd i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn rheolaidd fel cynlluniau teyrngarwch, system fwy hyblyg tebyg i un yr 'oyster card', disgownt am swmpbrynu a gostwng prisiau tocynnau teithio yn gallu helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Fel y nodwyd uchod, mae ailfodelu strydluniau'n helpu i hyrwyddo teithio llesol, fel y mae buddsoddi yn y seilwaith beicio.

**Byddai parhau i hybu gweithio o bell yn gallu cadw lefel allyriadau'n isel ond mae angen ystyried yr heriau y mae hyn yn eu creu i rai pobl.** Mae gweithio o bell yn gallu helpu i gynyddu cyfranogiad yn y farchnad lafur gan weithwyr anabl a'r rheini â chyfrifoldebau gofalu (menywod yn bennaf) a lleihau'r defnydd o geir ac allyriadau. Er hynny,



mae nifer mawr o alwedigaethau ac aelwydydd lle nad yw gweithio o bell yn ymarferol, ac mae rhai gweithwyr yn cael ei fod yn achosi straen ac arwahanu cymdeithasol. Yn achos pobl sydd heb y gofod, y cyfarpar neu'r distawrwydd sydd eu hangen i weithio gartref, gellid eu galluogi i weithio o bell yn agos i'w cartrefi drwy ddarparu canolfannau cymunedol sy'n cynnwys mannau gweithio hyblyg. Byddai hyn yn cynnig manteision o ran lleihau tagfeydd traffig ac allyriadau. Mae cyfle hefyd i ddatgarboneiddio cartrefi a dylunio tai newydd sy'n darparu ar gyfer mwy o weithio gartref.

### **Bydd angen i Lywodraeth Cymru fod yn barod i gefnogi rhai penderfyniadau dadleuol.**

Mae'n bosibl y bydd angen cyflwyno prasio ffyrdd, cynyddu taliadau am barcio wrth y gweithle mewn dinasoedd, a hwyluso camau i gyflwyno terfynau cyflymder 20mya mewn ardaloedd preswyl. Byddai newidiadau mewn patrymau cymudo hefyd yn gallu creu goblygiadau i fuddsoddiadau arfaethedig, yn enwedig Metro De Cymru a datblygiadau tai newydd. Mae'n bosibl y bydd angen defnyddio meini prawf diwygiedig mewn arfarniadau buddsoddi cyhoeddus er mwyn canolbwyntio'n fwy ar hybu adferiad mewn sectorau allweddol ac efallai cryfhau polisiâu rhanbarthol i drechu anghydraddoldebau sy'n fwy amlwg mewn rhai ardaloedd.

## **Gweithredu cymunedol a gwirfoddoli**

**Bydd yn bwysig cynnal trydydd sector bywiog a lefelau uchel o wirfoddoli wedi i'r argyfwng presennol fynd heibio** a hynny, yn anad dim, am ei bod yn bosibl y bydd eu hangen i ymateb i donnau o heintiadau Coronafeirws yn y dyfodol. Defnyddiwyd gallu yn y gymuned i gynorthwyo pobl agored i niwed mewn ymateb i'r argyfwng presennol, drwy elusennau sefydledig a mentrau ar lawr gwlad. Er bod buddsoddi gan Lywodraeth Cymru a WCVA wedi'i groesawu, mae nifer o elusennau yng Nghymru yn wynebu anawsterau ariannol oherwydd cynnydd digyffelyb yn y galw am eu gwasanaethau a/neu am fod gweithgareddau codi arian traddodiadol wedi'u hatal. Dylid helpu gwirfoddolwyr newydd i barhau yn eu rôl wedi i'r pandemig arafu, yn enwedig os bydd dychwelyd i weithio ac ailafael mewn bywyd cymdeithasol yn golygu bod llai o amser sbâr gan bobl. Bydd angen cymorth a chyllid priodol ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru er mwyn delio â hyn wrth i ni gyrraedd y cyfnod adfer.

**Mae cyfle i greu gwaddol o gydweithio cymunedol.** Byddai cynnal ymdeimlad o alluedd cymunedol yn gallu helpu i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae angen canolbwyntio o'r newydd ar adnabod a chydweithio â dylanwadwyr mewn cymunedau lleol er mwyn deall sut mae newid yn digwydd ym mhob lle.

# Cefnogi busnes ac adferiad gwyrdd

**Mae'n bosibl y bydd modd elwa o'r cynnydd sydyn, a diwrthwynebiad gan mwyaf, yn yr ymyrraeth a gafwyd gan y wladwriaeth yn ystod yr argyfwng er mwyn sicrhau cefnogaeth gan y cyhoedd i fwy o ymgysylltu parhaus gan lywodraeth â busnesau a chymunedau.**

Er bod nifer yr ysgogiadau polisi economaidd sydd gan Lywodraeth Cymru yn gyfyngedig, fe all gael dylanwad sylweddol drwy'r cymorth y mae'n ei gynnig i fusnesau, a gall ddefnyddio hyn i sicrhau adferiad gwyrdd a gwaith teg. Er enghraifft, gallai **gefnogi buddsoddi mewn cynlluniau rheoli dŵr a llifogydd, seilwaith trosglwyddo a storio ynni (h.y. y grid) – cynlluniau a all sicrhau buddion cymunedol trawsbynciol**. Byddai hefyd yn gallu cefnogi rhai cynlluniau amlwg a fydd yn dangos i gymunedau lleol fod yr adferiad gwyrdd yn fanteisiol iddyn nhw.

## Cymorth hyblyg gan lywodraeth

**Y math o gymorth a allai fod yn fwyaf effeithiol yn y cyfnod adfer yw cymorth hyblyg i fusnesau lle ceir cydweithio rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a strwythurau llywodraethu rhanbarthol fel y Bargeinion Dinesig.**

Mae perygl y bydd y pandemig Coronafeirws yn dad-wneud yr enillion a gafwyd o ran cyflogaeth yng Nghymru dros y degawd diwethaf. Mae ergydion economaidd yn gadael busnesau â llai o allu i addasu ac arloesi ac mewn sefyllfa wannach (Healy, 2020).

**Mae deall natur yr effaith ar wahanol sectorau'n gallu helpu wrth lunio strategaeth cymorth teilwredig.** Gellir rhannu busnesau i bedwar categori cyffredinol:

- Bydd rhai ag angen cymorth wrth ddychwelyd yn raddol at lefel o weithgarwch sy'n weddol debyg i'r arfer.
- Bydd eraill, yn cynnwys rhai yn y sector lletygarwch, na fyddant yn gallu ailddechrau am gryn amser ac felly dylid cynorthwyo cyflogeion i ailhyfforddi.
- Mae'r rheini sy'n gysylltiedig ag ardaloedd twristaidd diarffordd yn wynebu anawsterau neilltuol gan nad oes cyfleoedd amlwg eraill am gyflogaeth tra bydd cyfyngiadau ar deithio'n parhau ac maent yn debygol o wynebu cyfnod hir o golli incwm. Bydd angen cymorth ychwanegol amynt, fel cynllun gwarant swyddi.
- Y rheini na allant weithredu o dan ofynion am gadw pellter cymdeithasol, fel rhai busnesau gweithgynhyrchu, lle mae'n bosibl y bydd angen dechrau awtomeiddio prosesau. Bydd angen targedu cymorth i ddelio â hyn heb golli nifer sylweddol o swyddi.

**Mae rôl i'w chyflawni gan Lywodraeth Cymru drwy ddarparu seilwaith i gefnogi busnesau,** yn cynnwys drwy gymorth i ddarparu manau gweithio diogel, cysylltedd digidol a thrafnidiaeth gynaliadwy, a chymhellion i annog busnesau gweithgynhyrchu i fabwysiadu'r uchelgais o adferiad gwyrdd.

## Ariannu cymorth

**Mae dewisiadau i'w gwneud o ran sut i ariannu'r ddyled gyhoeddus,** yn enwedig yng nghyd-destun pwysau dyledion byd-eang, yn cynnwys pa mor gyflym i ddychwelyd at gyllideb gyfredol gytbwys a pha bryd a sut i godi refeniw. Os codir refeniw drwy gynyddu trethi, bydd hyn yn creu goblygiadau i fusnesau yng Nghymru ac, wrth wneud penderfyniadau am godi trethi a gwario, mae angen ystyried strwythur economi Cymru. Er enghraifft, byddai rhewi cyflogau'r sector cyhoeddus yn cael effaith fwy niweidiol yng Nghymru nag mewn rhai rhannau eraill o'r DU oherwydd lefel gymharol uchel y gyflogaeth yn y sector cyhoeddus.

Rhai o'r cyfleoedd sydd ar gael yw cynyddu rôl Banc Datblygu Cymru, drwy gynnwys cyfrifoldeb i gefnogi camau i drawsnewid ar lefel busnesau a'r economi, a mwy o fuddsoddi mewn arolygon busnes i gael dealltwriaeth fwy manwl o gryfderau, cyfleoedd, gwendidau a thagfeydd o ran ariannu. Dylid ailedrych ar gymorth busnes er mwyn sicrhau ei fod wedi'i addasu'n fanwl i ymateb i sefyllfa'r economi yn sgil y Coronafeirws, er mwyn meithrin busnesau cynhenid, ac er mwyn cefnogi adferiad gwyrdd, gan sicrhau hefyd ei fod yn amodol ar yr ymrwymiad y mae'r derbynwyr yn ei ddangos i geisio cyflawni'r nodau Llesiant a chynnig gwaith teg.

**Bydd angen cymorth gan lywodraeth mewn rhai rhannau o'r economi sylfaenol er mwyn goroesi ar ôl colli busnes o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud** a gallai'r economi sylfaenol brofi effaith niweidiol yn y tymor hwy os bydd cynnydd mewn diweithdra yn arwain at ostyngiad hir mewn gwariant dewisol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd rhannau eraill o'r economi sylfaenol, yn cynnwys y rheini yn y sector cyhoeddus, yn fwy cydnerth. Dylid targedu cymorth ar fusnesau a fydd yn hyfyw os gallant oroesi'r ergyd dymor byr ac, wrth ddarparu rhaglenni hyfforddi ac ailhyfforddi galwedigaethol, dylid canolbwyntio ar baratoi pobl at waith yn y meysydd hyn.

**Dylid defnyddio cymorth busnes i geisio hybu'r math o stryd fawr y mae pobl am ymweld â hi,** gan roi mwy o gydnabyddiaeth i bwysigrwydd busnesau bach a siopa lleol. Gellid cynorthwyo cymunedau lleol drwy gynyddu cyfraddau trethi'r cwmnïau mwy sydd y tu allan i ddinasoedd a'r trefi mwyaf a darparu mwy o gymorth i fusnesau bach.

Byddai cynnydd parhaus mewn siopa lleol a gweithio o bell yn cael effeithiau negyddol ar fusnesau yng nghanol dinasoedd sy'n dibynnu ar wario gan gymudwyr, a gallai hyn wanhau'r farchnad eiddo masnachol mewn canolfannau cymudwyr bach a mawr. Felly mae'n bosibl y bydd angen mabwysiadu strategaethau gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a

busnesau i hybu ailddefnyddio neu adnewyddu swyddfeydd neu fannau manwerthu gwag, yn cynnwys darparu mannau gweithio hyblyg lleol ar gyfer busnesau newydd neu sefydledig sydd mewn lleoliadau eraill. Bydd hefyd yn bwysig cynnal economi gytbwys sy'n cynnwys cwmnïau mwy a fydd yn cyfrannu adnoddau, arbenigedd a gwybodaeth nad ydynt ar gael i fentrau lleol (Soroka et al., 2019).

## Defnydd strategol o gaffael a chymorth busnes

**Mae angen i gefnogaeth Llywodraeth Cymru i adferiad gwyrdd fod yn rhan o weledigaeth dymor hwy sydd wedi'i seilio ar asesiad o asedau strategol Cymru ac sy'n diffinio'r gwerth a grëir gan gynhyrchion a wneir yng Nghymru.** Mae hyn yn galw am gynlluniau buddsoddi seiliedig ar genhadaeth ac am newid o rôl 'trwsio marchnadoedd' at ffocws ar greu a siapio marchnadoedd dymunol.

Gellir defnyddio prosesau caffael a chymorth busnes i feithrin galw a rhwydweithiau cyflenwi. Rhai cyfleoedd i hybu adferiad gwyrdd yw:

- Lleihau'r defnydd o garbon wrth gynhyrchu dur: ceisio cymell arloesi (e.e. defnyddio ffwrneisi trydan) ac adeiladu clwstwr diwydiannol i gynnal hyn;
- Newidiadau mewn defnydd tir: buddsoddi mewn sgiliau ar gyfer newid defnydd tir a defnyddio cymorthdaliadau amaethyddol i hybu newid o ffermio defaid a chig eidion at ailgoedwigo;
- Mwy o fuddsoddi mewn ynni gwynt ar y tir;
- Ymrwmo i brynu cynhyrchion di-garbon;
- Safonau di-garbon ar gyfer adeiladu tai newydd.

Byddai polisi llywodraeth i gymell cyflogwyr i ddileu rhwystrau i ddilyniant mewn swyddi yn gallu ategu polisiâu eraill, fel rhai i hyrwyddo a gorfodi cyflog byw cenedlaethol. Er enghraifft, byddai cymalau newydd ar gyfer caffael yn gallu mynnu bod cwmnïau sydd am weithio gyda'r sector cyhoeddus yn darparu dilyniant mewn swydd (Webb et al., 2018), ochr yn ochr â strategaeth gorfodi.

Bydd yn rhaid aros i weld a fydd angen help ar y diwydiant adeiladu tai i adfer ei gapasiti ar ôl codi'r cyfyngiadau symud, ond mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i ailedrych ar ddyluniadau tai. Mae'n ymddangos yn debygol y bydd polisi tai yn gallu cefnogi adferiad teg a gwyrdd, er enghraifft, drwy ddatblygu ac adeiladu tai fforddiadwy carbon isel, a chymorth i ôl-osod (neu uwchraddio) y stoc dai bresennol. Gellid addasu polisiâu rheoli tir i gyfrannu at ddatblygu tai cymdeithasol gwyrdd.

**Bydd gwasanaethau cyhoeddus yn chwarae rhan hanfodol yn yr adferiad economaidd fel cyflogwyr mawr a phrynwyr nwyddau a gwasanaethau.** Bydd yn bwysig cynyddu eu

potensial ar gyfer cefnogi economïau lleol drwy brosesau caffael cyhoeddus a chadwyni cyflenwi, a hybu adferiad economaidd gwyrdd wrth wneud hynny.

Wrth gaffael, mae angen rhoi blaenoriaeth i'r opsiynau 'gorau' yn hytrach na'r rhai 'hawsaf a mwyaf cyfleus', ac mae angen galluogi swyddogion caffael i ddatblygu dulliau sy'n creu'r cyfoeth cymunedol mwyaf posibl. Byddai dull caffael seiliedig ar werth cyhoeddus yn gallu ysgwyddo costau uwch ar y dechrau ond yn gallu dod â buddion economaidd hirdymor (Tizard a Mathias, 2019), a chynorthwyo cyflenwyr lleol drwy gysylltu uchelgeisiau ac anghenion lleol (er enghraifft, lleihau diweithdra lleol, datblygu cadwyni cyflenwi lleol) â chontractau; symleiddio prosesau cynnig fel bod busnesau bach a chanolig eu maint yn gallu cymryd rhan; rheoli contractau'n well; a chynnwys meini prawf cymdeithasol ac amgylcheddol ym manylebau contractau (Jackson, 2016; Bell, 2019).

# Cyfeiriadau

Bell, M. (2019) **Sustainable Public Procurement**. Wales Centre for Public Policy. Adalwyd o <https://www.wcpp.org.uk/publication/sustainable-public-procurement/>

Bottery, S., Varrow, M., Thorlby, R., a Wellings, D. (2018). **A fork in the road: Next steps for social care funding reform**. The Kings Fund. Adalwyd o <https://www.kingsfund.org.uk/sites/default/files/2018-05/A-fork-in-the-road-next-steps-for-social-care-funding-reform-May-2018.pdf>

Carers UK (2020). **Caring behind closed doors: Forgotten families in the coronavirus outbreak**. Adalwyd o [https://www.carersuk.org/images/News\\_and\\_campaigns/Behind\\_Closed\\_Doors\\_2020/Caring\\_behind\\_closed\\_doors\\_April20\\_pages\\_web\\_final.pdf](https://www.carersuk.org/images/News_and_campaigns/Behind_Closed_Doors_2020/Caring_behind_closed_doors_April20_pages_web_final.pdf)

Catney, G. a Sabater, A. (2015) **Ethnic minority disadvantage in the labour market**. Joseph Rowntree Foundation. Adalwyd o <https://www.jrf.org.uk/report/ethnic-minority-disadvantage-labour-market>

Confederasiwn GIG Cymru (2020). **Partnership working across Wales to support the response to COVID-19**. Adalwyd o <https://www.nhsconfed.org/-/media/Confederation/Files/Wales-Confed/How-NHS-organisations-are-working-across-the-public-and-private-sectors-to-tackle-COVID19-April-2020.pdf>

Cyngor ar Bopeth Cymru (2017). **Work and health in Wales**. Adalwyd o <https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/policy/policy-research-topics/citizens-advice-cymru-wales-policy-research/work-and-health-in-wales/>

Cymorth Cymru (2020) **Letter to Julie James AM, Minister for Housing and Local Government, and Vaughan Gething AM, Minister for Health and Social Services**. 24 March 2020. Adalwyd o [https://mcusercontent.com/9b87782914f7a37c55e5e9d41/files/515c77ef-6879-4f52-b99f9589a59bdfde/Cymorth\\_letter\\_to\\_Ministers\\_re\\_financial\\_support\\_FINAL.pdf](https://mcusercontent.com/9b87782914f7a37c55e5e9d41/files/515c77ef-6879-4f52-b99f9589a59bdfde/Cymorth_letter_to_Ministers_re_financial_support_FINAL.pdf)

Dadansoddi Cyllid Cymru. (2020). **Covid-19 and the Higher Education Sector in Wales**. Cardiff University. Adalwyd o [https://www.cardiff.ac.uk/\\_\\_data/assets/pdf\\_file/0010/2394361/Covid\\_FINAL.pdf](https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0010/2394361/Covid_FINAL.pdf)

EEF (2020a). **Impact of school closures on the attainment gap: Rapid evidence assessment**. Adalwyd o [https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/EEF\\_\(2020\)\\_-\\_Impact\\_of\\_School\\_Closures\\_on\\_the\\_Attainment\\_Gap.pdf](https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/EEF_(2020)_-_Impact_of_School_Closures_on_the_Attainment_Gap.pdf)

EEF (2020b). **Best evidence on supporting students to learn remotely**. Adalwyd o <https://educationendowmentfoundation.org.uk/covid-19-resources/best-evidence-on-supporting-students-to-learn-remotely/>

Goddard, J., Hazelkorn, E., Upton, S. a Boland, T. (2018). **Maximising Universities' Civic Contribution**. Wales Centre for Public Policy. Adalwyd o <https://www.wcpp.org.uk/publication/maximising-universities-civic-contribution/>

Healy, A. (2020). **Strengthening economic resilience**. Wales Centre for Public Policy. Adalwyd o <https://www.wcpp.org.uk/publication/strengthening-economic-resilience/>

Henderson, D., Jones, C., Munday, M., Norris, L., Roberts, A., Reynolds, L., Roche, N. a Xu, C. (2020). **Digital maturity survey 2019**. Cardiff University. Adalwyd o <https://www.cardiff.ac.uk/superfast-broadband-project/digital-maturity-survey>

Holtham, G. (2018). **Paying for social care: An independent report commissioned by the Welsh Government**. Adalwyd o <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-11/paying-for-social-care.pdf>

IFS (2020). **Sector shutdowns during the coronavirus crisis: which workers are most exposed?** Adalwyd o <https://www.ifs.org.uk/publications/14791>

Institute for Student Employment (2020). **COVID-19 challenges for student recruitment**. Adalwyd o <https://ise.org.uk/page/blog-covid-19-challenges-for-student-recruitment>

Jackson, M. (2016) **Creating A Good Local Economy Through Procurement**. Procure Network. Adalwyd o <https://cles.org.uk/procure-urbact-iii-creating-a-good-local-economy-through-procurement/>

Joseph Rowntree Foundation (2020). **Education in Wales**. Adalwyd o <https://www.jrf.org.uk/data/education-wales>

Llywodraeth Cymru (2019). **Research on Implications of Brexit on Social Care and Childcare Workforce in Wales**. Adalwyd o <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-03/implications-brexit-social-care-and-childcare-workforce.pdf>

OECD (2020) **COVID-19: Protecting People**. Adalwyd o: <http://www.oecd.org/coronavirus/en/>

Price J. a Russell H. (2020) **Youth Homelessness: Moving Towards Prevention**. Adalwyd o <https://www.wcpp.org.uk/commentary/youth-homelessness-moving-towards-prevention/>

Prifysgolion Cymru (2020) **What role for universities in post-Covid Wales?** 28 April 2020. Adalwyd o <https://www.uniswales.ac.uk/blog-what-role-for-universities-in-post-covid-wales/>

Resolution Foundation (2020). **Doing what it takes**. Adalwyd o <https://www.resolutionfoundation.org/publications/doing-what-it-takes/>



Rest Less (2019). **Nearly One in Two (46%) of the Entire Self-Employed Workforce in the UK is now Over the Age of 50.** Adalwyd o <https://restless.co.uk/press/nearly-one-in-two-46-of-the-entire-self-employed-workforce-in-the-uk-is-now-over-the-age-of-50/>

Rimmer, A. a Chatfield, C. (2020). **What organisations around the world are doing to help improve doctors' wellbeing.** British Medical Journal. Adalwyd o <https://www.bmj.com/content/369/bmj.m1541>

Runnymede Trust (2020). **The colour of money: How racial inequalities obstruct a fair and resilient economy.** Adalwyd o <https://www.runnymedetrust.org/uploads/publications/pdfs/2020%20reports/The%20Colour%20of%20Money%20Report.pdf>

Sefydliad Bevan (2018). **Mandatory concessionary fares scheme in Wales – Response by the Bevan Foundation.** Adalwyd o <https://41ydvd1cuyvlonsm03mpf21pub-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2018/01/Concessionary-Fares-response-160118.pdf>

Sefydliad Bevan (2020). **State of Wales Briefing: Risks and impact of coronavirus.** Adalwyd o <https://www.bevanfoundation.org/coronavirus/>

Simcock, T (2020) **What is the likely impact of the COVID-19 pandemic on the UK private rented sector?** UK Collaborative Centre for Housing Evidence. Adalwyd o <https://housingevidence.ac.uk/what-is-the-likely-impact-of-the-covid-19-pandemic-on-the-uk-private-rented-sector/>

Soroka, A.; Bristow, G.; Naim, M. a Purvis, L. (2019). **Measuring regional business resilience.** Regional Studies, DOI: 10.1080/00343404.2019.1652893

Talbot, C. (2020). **Government has centralised the coronavirus response – but there's a role for the local too.** Kings College London. Adalwyd o <https://www.kcl.ac.uk/news/government-has-centralised-the-coronavirus-response-but-theres-a-role-for-the-local-too>

Teixeira, L. (2020) **Coronavirus: a historic opportunity to end homelessness for good in the UK.** UK Collaborative Centre for Housing Evidence. Adalwyd o <https://housingevidence.ac.uk/coronavirus-a-historic-opportunity-to-end-homelessness-for-good-in-the-uk/>

Taylor-Collins, E. a Bristow, D. (2020). **Administering social security in Wales.** Adalwyd o <https://www.wcpp.org.uk/publication/administering-social-security-in-wales/>.

Tizard, J. a Mathias, M. (2019) **Beyond Contracting: Public Service Stewardship to Maximise Public Value.** Wales Centre for Public Policy. Adalwyd o <https://www.wcpp.org.uk/commentary/beyond-contracting-public-service-stewardship-to-maximise-public-value/>

Universities UK (2020). **Achieving stability in the higher education sector following COVID-19**. Adalwyd o [https://universitiesuk.ac.uk/news/Documents/uuk\\_achieving-stability-higher-education-april-2020.pdf](https://universitiesuk.ac.uk/news/Documents/uuk_achieving-stability-higher-education-april-2020.pdf)

Uthmani, N. (2020). **How do we ensure fair grades for BAME students?** TES. Adalwyd o <https://www.tes.com/news/how-do-we-ensure-fair-grades-bame-students>

Webb, J., Parken, A., Hodges, H. a Mathias, M. (2018). **Job progression in low pay sectors**. Wales Centre for Public Policy. Adalwyd o <https://www.wcpp.org.uk/publication/promoting-job-progression-in-low-pay-sectors/>

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. (2019a). **Benefits in Wales: Options for Better Delivery**. Senedd. Adalwyd o <https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12832/cr-ld12832%20-e.pdf>

## Manylion yr Awduron

Mae cyd-awduron y papur hwn yn staff yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, yn cynnwys: **Laura Bennett, Dan Bristow, Andrew Connell, James Downe, Hannah Durrant, Helen Hodges, Craig Johnson, Eleanor MacKillop, Steve Martin, Megan Park, Jack Price, Manon Roberts, Emma Taylor-Collins a Helen Tilley.**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r:

**Athro Steve Martin**

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

[info@wcpp.org.uk](mailto:info@wcpp.org.uk)

**OGL** Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored